

Codi Cwestiynau

Rydan ni'n gwybod yn reddfod lle dan ni'n sefyll pan mae na fygythiad i ddyfodol ein plant o fewn ein cymdogaeth neu i ddyfodol y Gymraeg o fewn ein cymdogaeth. Rydan ni'n gwrandu ar y galon ac, wrth gwrs, dan ni'n cael ein cyhuddo o fod yn emosiynol a sentimental gan swyddogion ac arweinwyr sir.

Wrth gwrs bod teimladau yn gry. Ond wrth ymateb i'r Ddogfen, mae amryw wedi cynnig ffeithiau pendant, dadleuol rhesymegol, ystadegau ariannol a niferoedd genedigaethau, wedi cyfeirio at bolisiau ac egwyddorion cyllido ac wedi rhoi dewisiadau eraill wrth drafod problemau addysg gynradd Gwynedd.

Mae'r cyfan wedi'i anwybyddu gan y swyddogion a'r arweinwyr sydd y tu ôl i'r Ddogfen. Dan ni'n gwybod, wrth edrych yn ôl dros 3 blynedd o wyntyllu syniadau cyn creu'r ddogfen nad ydi'r Dogfenwyr wedi bod yn dda am wrando ar athrawon, penaethiaid, rhieni a chynghorwyr eraill. Mae'r Dogfenwyr wedi hela sawl sgwarnog yn eu rhethreg ar y cyfryngau ac yn y colofnau llythyrau wrth ymateb i'r rhai sy'n beirniadu eu Dogfen. Ond maen nhw eto i ateb nifer o bwyntiau penodol. Mae ganddon ni Ddogfenwyr nad ydyn nhw yn gwrandu nac yn ateb, na chwaith yn gofyn y cwestiynau iawn yn y Cynulliad ar ran pobl aq phlant Gwynedd.

1

Prinder babis ydi un o'r rhesymau dros ad-drefnu. Uned Ymchwil Gwynedd 2005 wnaeth y syms. Yn 2005 roedd y babis a anwyd yn 2002 yn dechrau yn yr ysgol. Rhwng 1996 a 2002 roedd nifer genedigaethau Gwynedd wedi disgyn bob blwyddyn. Mae'r Uned Ymchwil wedi cymryd pren mesur a thynnu llinell syth gan ragweld y bydd niferoedd babis yn dal i ostwng bob blwyddyn ar ôl 2002 nes y bydd na argyfwng yn 2014 efo dim ond 8,500 o blant cynradd o'i gymharu a 10,080 yn 1996. Ond be ydi hanes genedigaethau Gwynedd ers 2002? Cynnydd o 1.94% yn 2003; cynnydd o 3.63% yn 2004; 5.42% yn 2005 a 5.38% yn 2006. Roedd 1,331 o enedigaethau yn sir Gwynedd yn 2006 – bron ddau gant yn fwy na 2002 (dros 17% o gynnydd). Dydi'r rhagolwg nifer plant cynradd yn 2014 ddim yn gywir – maen nhw led cae oddi ar y marc.

Y cwestiwn cynta felly

Pam nad ydi Uned Ymchwil Gwynedd 2005 yn mynd i gyfri'r babis newydd ychwanegol ma wrth ystyried y dyfodol?

2

Mae gan Wunedd Rwyd Diogelwch i gynorthwyo'r ysgolion lleiaf i gael dau athro. Mae hon yn werth rhyw hanner miliwn o bunnoedd y flwyddyn ac yn dod allan o gyllideb addysg y sir, nid gan y Cynulliad. Mae'n rhoi cymorth i ryw 25 o ysgolion. Yn yr Alban, mae'r Llywodraeth yng Nghaeredin yn rhoi grant ychwanegol i bob ysgol sydd o dan 70 mewn nifer; yng Ngogledd Iwerddon mae £30 miliwn yn cael ei roi yn uniongyrchol gan y Cynulliad yno i gynnal ysgolion bychain ar draws y dalaith.

Cwestiwn 2

Pam nad ydi Gwynedd yn curo wrth ddrws y Cynulliad ac yn edliw yr hyn mae llywodraethau yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ei roi ar ben y gyllideb addysg arferol er mwyn cynnal ysgolion bychain ac yn hawlio yr un peth i bobl Cymru?

3

Yn yr Alban, rhoddir gwerth uwch ar waith athro sy'n dysgu dosbarth gyda mwy nag un blwyddyn addysgol ynddo. Caniateir gostwng maint y dosbarthiadau hynny, mae arian ar gyfer hynny. Mae Dogfen Gwynedd yn disbrasio'r athrawon sy'n gwneud y math hwn o waith yn ysgolion y sir.

Cwestiwn 3

Pam nad ydi Gwynedd yn gofyn i Lywodraeth Cymru'n Un i roi gwerth ar waith addysgu dosbarthiadau sy'n cynnwys mwy nag un flwyddyn ysgol?

4

Nodir yn y Ddogfen bod rhaid rhannu'r gacen yn well, symud arian o gefn gwlad i ysgolion trefol mwyaf y sir. Mae fforwm 5 ysgol cynradd mwyaf Gwynedd wedi bod drwy'r ddogfen gyda chrib mân ac wedi dod i'r casgliad nad oes na ddim budd iddyn nhw ynddi.

Cwestiwn 4

Os nad ydi'r ysgolion mawr sydd i fod i elwa, yn elwa, pam mela?

5

Mae cost y lleoedd gweigion sydd mewn ysgolion yn cael ei nodi yn y Ddogfen fel ffactor dros wneud y newidiadau. Mae Llywodraeth yr Alban wedi profi nad oes sail ariannol i ddadl y Comisiwn Archwilio ynglyn â chost lleoedd gweigion.

Cwestiwn 5

Pam nad ydi Gwynedd a Chynulliad Cymru wedi gofyn i Lywodraeth yr Alban am y dadleuon hyn er mwyn taflu'r honiadau anghywir yma yn ôl i wyneb y llywodraethwyr yn Llundain?

6

Mae'r gwahaniaeth mewn cost y pen yn cael ei gyflwyno fel rheswm dros ad-drefnu. Yr unig ateb mewn rhai ardaloedd, medd y Ddogfen, yw creu ysgolion ffederal anferth efo pyramid o bennaethiaid a gweinyddwyr. Bydd cynnydd yng nghost y pen yn yr ysgolion hyn.

Cwestiwn 6

Os yw cost y pen yn broblem, sut mae ei gynyddu yn ateb y broblem?

7

Wrth ystyried cau ysgolion, dydi cyfraniad yr ysgol i iaith yr ardal ddim yn un o'r 5 maen prawf sy'n cael sylw. Mae ysgolion bychain yn fwy llwyddiannus nag ysgolion mwy wrth droi plant mewnfudwyr yn ddwyieithog ac wrth gymhathu y rhieni hynny i gymdeithas yr ysgol a'r ardal. Cyfarfodydd Cymraeg ydi cyfarfodydd rhieni ac athrawon yn y rhan fwyaf o ysgolion bychain. Mae'r ysgolion yn cyflawni mwy nag anghenion addysg y gymuned – mae'n cymhathu'r gwahanol elfennau a'u tynnu at ei gilydd yn un gymdogaeth.

Cwestiwn 7

Mae Gogledd Iwerddon yn rhoi grantiau arbennig i ysgolion sy'n cymhathu'r ddwy gymdeithas enwadol yno, yn cydnabod eu gwaith cymdeithasol efo cyllid. Pam nad ydi Gwynedd yn tynnu sylw'r Cynulliad at hyn ac at y gwaith cymhathu cymdeithasol ieithyddol y mae ysgolion bychain gwledig y sir yn ei wneud, ac yn cydnabod hynny yn ariannol?

8

Ymhen rhai blynyddoedd ar ôl cau neu israddio unrhyw ysgol leol, bydd y Cyngor yn chwilio am arian i gynorthwyo'r ardal dlawd, ddifreintiedig, ddigymdogaeth honno. Bydd yn sefydlu swyddfa leol o ryw gorff tebyg i 'Tarian Gwynedd Wledig', yn hen adeilad yr ysgol; bydd Swyddog Ieuencid yn cael ei benodi i hybu digwyddiadau fel Adran leol o'r Urdd, Carnifal lleol, Eisteddfod leol; bydd Swyddog Bro yn cael ei benodi i gynnal Ffair Haf, Ffair Dolig, Cyfarfod Diolchgarwch, Cyfarfod Carolau; bydd swyddog amgylcheddol yn cael ei benodi i weld sut y gellid cael trefniant gwyrddach ar gyfer trafnidiaeth addysg y sir; bydd cwrs penwythnos 'Dewch nôl o'r ddinas i fyw yn y wlad' i athrawon fydd wedi ymfudo o Wynedd; bydd y Fenter Iaith leol yn penodi Swyddog Cymhathu i ddod â'r mewnfudwyr i gyswllt agosach â'r gymdeithas Gymraeg leol; bydd rhaid i'r Adran Addysg chwilio am fwy o arian adnoddau i'r ysgolion ffederal gan nad oes na frwdfrydedd bellach mewn Cymdeithasau Rhieni/Athrawon i gynorthwyo'r ysgol fawr, ganolog, fiwrocratig newydd; bydd yr Awdurdod Iechyd yn penodi Swyddog Iechyd y cyhoedd fydd yn trefnu teithiau cerdded, timau pêl-droed, mabolgampau am fod pryder am dewdra'r plant; bydd yn trefnu cynhadledd ar y prom yn Llandudno i edrych ar broblemau adfywio cefn gwlad...

Cwestiwn 8

Pam na wnan nhw arbed yr holl bres yna a gweithio ar yr adnoddau sydd yn yr ardal eisoes?

O wrando ar, o ateb y pwyntiau yma sydd eisoes wedi eu cyflwyno i'r Dogfenwyr, o ofyn y cwestiynau iawn yn y llefydd iawn, mi fyddai drws i ddulliau amgenach o weithredu yn agor, gan sicrhau addysg dda, leol, Gymraeg i blant Gwynedd i gyd.